**Capel Ebeneser, Treuddyn**
**Newyddion Diweddaraf** 23/04/2024
**Ebrill 2024 – Gorffennaf 2024**

Dydd Gweddi'r Byd - Cynhaliwyd y gwasanaeth undebol eleni yn Eglwys y Santes Fair, Treuddyn am 6 yr hwyr ar y 3ydd o Fawrth. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan aelodau'r Eglwys a chapeli lleol yr ardal. Thema'r gwasanaeth oedd 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad' ac fe'i paratowyd gan Ferched Cristnogol Palesteina.

Yn ôl yr arfer cynhaliwyd gwasanaeth cymun fore Gwener y Groglith, Mawrth 29ain am 10.30 o'r gloch yng ngofal ein Gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans.

Clwb Capel Ebeneser - Mae'r Clwb yn dal i ffynnu o dan arweinyddiaeth Mrs Alaw Smith. Cynhelir ar y Sul cyntaf o'r mis am 10 y bore. Estynnir croeso cynnes I blant a'u rhieni/oedolyn i ymuno â'r sesiynau. Mae'r plant yn cael cyfle i ymuno mewn nifer o wahanol weithgareddau gan gynnwys, gwrando ar storiau o'r beibl a gwneud crefftau yn seiliedig ar y storiau.

Estynnwn groeso cynnes i bawb i'n gwasanaethau dwyieithog ar Fehefin 9fed am 6yh, Gorffennaf 21ain am 6yh, Hydref 27ain am 2.30yp, Rhagfyr 8fed am 2.30yp a hefyd ein gwasanaeth Nadolig ar Ragfyr 22ain am 2.30yp.

Cymdeithas y Capel - Bydd y cyfarfodydd yn ail ddechrau ar Nos Fawrth , Mai 14eg am 7 o'r gloch. Y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans fydd yng ngofal y noson. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Dyddiadau y rhai i ganlyn yw -
Nos Fawrth 11 Mehefin am 7yh Siaradwr i'w drefnu
Nos Fawrth 9 Gorffennaf am 7yh Siaradwr i'w drefnu
Nos Fawrth 13 Awst am 7yh Siaradwr i'w drefnu

Hefyd, ar brynhawn **Sadwrn, Mehefin 8fed am 3 o'r gloch yn Hafan Deg** byddwn yn cynnal Prynhawn Coffi/Te a Chacen. Byddwn yn falch iawn os gallech ymuno â ni.

Anfonwn ein dymuniadau a chofion gorau i'r aelodau hynny sydd ddim yn dda eu hiechyd a dymunwn adferiad buan iddynt a hefyd cofiwn am holl drigolion eraill yr ardal sy'n wael ar hyn o bryd.

## Gwasanaethau Ebrill – Rhagfyr 2024 (amser fel y nodir)

| | | |
|---|---|---|
| Ebrill 28 | Parch Marc Morgan am 6 yh | |
| Mai 5 | Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh | (Cymun) |
| Mai 12 | | |
| Mai 19 | Mrs Marion Simkin am 6 yh | |
| Mai 26 | Parch Marc Morgan am 6 yh | |
| Mehefin 2 | Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh | (Cymun) |
| Mehefin 9 | RALI - Diacon Lisa Rathbone am 6yh | **( English Address)** |
| Mehefin 16 | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin 23 | Parch Marc Morgan am 6 yh | |
| Mehefin 30 | | |
| Gorffennaf 7fed | Cymanfa Ganu yng nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug | |
| Gorffennaf 14eg | Mrs Elizabeth Jones am 6yh | |
| Gorffennaf 21ain | Mrs Sian Williams am 6yh **(English Address)** | |
| Gorffennaf 28ain | Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh | Cymun |
| Medi 1af | Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh | Cymun |
| Medi 8fed | CYFARFOD PREGETHU – Parch Robert Parry am 6yh | |
| Medi 15fed | | |
| Medi 22ain | Cymanfa Ganu Undebol am 6yh (lleoliad i'w gadarnhau) | |
| Medi 29ain | Parch Brian Evans am 6yh | |
| Hydref 6ed | Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh | Cymun |
| Hydref 13eg | DIOLCHGARWCH - Parch Robert Parry am 6yh | |
| Hydref 20fed | Parch Marc Morgan **am 4yp** | |
| Hydref 27ain | Diacon Lisa Rathbone am 2.30yp **(English Address)** | |
| Tachwedd 3ydd | Parch Eirlys Gruffydd Evans am 2.30yp | Cymun |
| Tachwedd 10fed | | |
| Tachwedd17eg | Parch Marc Morgan am **4yp** | |
| Tachwedd 24ain | Parch Eirlys Gruffydd Evans am 2.30yp | |
| Rhagfyr 1af | Parch Ddr Jennie Hurd am **4yp** | Cymun |
| Rhagfyr 8fed | Mrs Sian Williams am 2.30yp **(English Address)** | |
| Rhagfyr 15fed | Trefniant Lleol am 2.30yp | |
| Rhagfyr 22ain | GWASANAETH CAROLAU - Parch Eirlys Gruffydd Evans am 2.30yp **English Address** | |
| Rhagfyr 29ain | | |